**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2023.

**Rebecca Evans AS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
19 Medi 2023

## Disgrifiad

1. Mae Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2023 ("y Gorchymyn") yn ddarn technegol o ddeddfwriaeth sy'n pennu 1 Ebrill 2024 yn ddyddiad y cyfeirir ato ar gyfer yr ailbrisio ardrethi annomestig nesaf yng Nghymru.

2. Yn dilyn proses ymgynghori, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo, yn ddiofyn, i ostwng y cyfnod rhwng ailbrisiadau o bob pum mlynedd i bob tair blynedd. Wedi'r ailbrisio a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2023, bwriedir i'r ailbrisio nesaf ddigwydd ar 1 Ebrill 2026, yn amodol ar basio deddfwriaeth sylfaenol angenrheidiol.

3. Ar gyfer yr holl ailbrisiadau blaenorol ers 1990, mae'r dyddiad prisio rhagflaenol (AVD) wedi'i bennu i fod dwy flynedd cyn i'r rhestrau newydd ddod i rym, er enghraifft 1 Ebrill 2021 ar gyfer rhestr 2023. Mae angen gwneud y Gorchymyn i alluogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio i gynnal gwaith paratoi angenrheidiol er mwyn sicrhau bod modd cyflawni'r ailbrisiad ar 1 Ebrill 2026.

## Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

4. Nid oes unrhyw faterion o ddiddordeb arbennig y mae angen tynnu sylw'r Pwyllgor atynt.

## Y cefndir deddfwriaethol

5. Mae adrannau 41 a 52 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") yn gwneud darpariaeth i swyddogion prisio lunio rhestrau ardrethu annomestig. Yn flaenorol, roedd rhaid llunio rhestrau newydd bob pum mlynedd gan ddechrau ar 1 Ebrill 1990. Fodd bynnag, mae adran 54A o Ddeddf 1988 (a fewnosodwyd gan adran 30 o Ddeddf Twf a Seilwaith 2013 ac a ddiwygiwyd gan adran 1 o Ddeddf Ardrethu Annomestig (Rhestrau) 2021) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddarparu bod rhaid llunio'r rhestrau lleol a chanolog ar ddyddiad a bennir yn y gorchymyn hwnnw yn hytrach nag ar 1 Ebrill 2015. Symudodd Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Gwneud Rhestrau) (Cymru) 2014 ("Gorchymyn 2014") ailbrisiad 2015 i 1 Ebrill 2017. Mae adran 54A(4) a (5) yn nodi, os oes gan orchymyn o'r fath effaith, fod adrannau 41 a 52 yn gymwys fel pe baent yn ei gwneud yn ofynnol i lunio rhestr ar y dyddiad penodedig, ar 1 Ebrill 2023 ac ar 1 Ebrill ym mhob pumed flwyddyn wedi hynny.

6. Mae angen deddfwriaeth sylfaenol i gwtogi'r cyfnod rhwng ailbrisiadau i dair blynedd ac, o ganlyniad, newid dyddiad yr ailbrisiad nesaf i 1 Ebrill 2026. Wedi'r broses ymgynghori, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithredu ei pholisi ar gynnal ailbrisiadau yn fwy aml, bob tair blynedd, ac mae'n paratoi i gyflawni'r polisi hwn yn amodol ar basio deddfwriaeth sylfaenol angenrheidiol.

7. Mae adrannau 42(4) a 53(3) o Ddeddf 1988 yn darparu bod rhaid i'r rhestrau ardrethu annomestig gynnwys gwerthoedd ardrethol yr eiddo a restrir. Mae Atodlen 6 i Ddeddf 1988 yn cynnwys darpariaethau sy'n nodi sut y penderfynir ar werth ardrethol. Mae paragraff 2(3) o'r Atodlen honno yn darparu, at ddibenion llunio rhestr, y dylid penderfynu ar y gwerth ardrethol drwy gyfeirio at y diwrnod y

mae'r rhestr i'w llunio neu ar ddiwrnod cyn y diwrnod hwnnw a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn gorchymyn. Gelwir y dyddiad hwnnw yn ddyddiad prisio rhagflaenol (AVD).

8. Trosglwyddwyd pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

9. Mae adran 143(3) o Ddeddf 1988 yn darparu bod gorchymyn sy'n pennu'r AVD o dan baragraff 2(3)(b) o Atodlen i Ddeddf 1998 i'w wneud gan ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

**Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

10. Yn ystod ailbrisio ardrethi, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn asesu pob eiddo annomestig i benderfynu ar ei werth ardrethol ac mae'n llunio'r rhestrau ardrethu (rhestrau canolog a lleol). Ar gyfer y mwyafrif o eiddo annomestig, mae'r gwerth ardrethol yn seiliedig ar werth rhent y farchnad agored a amcangyfrifir ar ddiwrnod penodol, sef yr AVD. Pennir yr AVD gan Weinidogion Cymru drwy wneud gorchymyn o dan baragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988.

11. Diben yr AVD yw: (a) sicrhau bod pob eiddo yn cael ei brisio ar yr un sail, er mwyn dosbarthu'r atebolrwydd ardrethi yn deg rhwng gwahanol eiddo; a (b) galluogi swyddogion prisio i gasglu'r holl wybodaeth rhenti a gwybodaeth arall sydd ar gael er mwyn eu galluogi i asesu gwerthoedd ardrethol yn gywir at ddibenion llunio rhestrau.

12. Ar gyfer pob ailbrisiad blaenorol ers 1990, mae'r AVD wedi'i bennu i fod dwy flynedd cyn i'r rhestr newydd ddod i rym. Ar gyfer yr ailbrisiad nesaf, bwriedir i'r rhestrau ddod i rym ar 1 Ebrill 2026. Felly, dylai gorchymyn o dan Atodlen 6 i Ddeddf 1988 bennu 1 Ebrill 2024 yn ddyddiad y cyfeirir ato y mae gwerth ardrethol hereditament annomestig i'w benderfynu at ddibenion y rhestrau ardrethu lleol a chanolog a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2026.

13. Mae'r gorchymyn AVD yn ddarn technegol o ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i alluogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio i gynnal gwaith paratoi angenrheidiol ar gyfer yr ailbrisiad. Mae gorchymyn tebyg wedi'i wneud eisoes yn Lloegr ac mae'n ganlyniad arferol yn sgil y cynnig i gynnal yr ailbrisiad nesaf yn 2026.

14. Mae'r Gorchymyn hefyd yn dirymu Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2020 a bennodd yr AVD ar gyfer ailbrisiad 2023 yn 1 Ebrill 2021.

**Ymgynghori**

15. Mae'r AVD wedi'i bennu ar gyfer pob ailbrisiad blaenorol ers 1990 ac, yn yr un modd â'r ymarferion blaenorol hyn, cytunwyd ar y dyddiad gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio heb ymgynghori ymhellach ar yr hyn sy'n ddarn technegol o ddeddfwriaeth. Ym mhob achos, mae pob AVD blaenorol wedi'i bennu i fod dwy

flynedd cyn y dyddiad y mae pob rhestr berthnasol wedi dod i rym. Mae’r Gorchymyn yn dilyn yr un arfer sefydledig.

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

16. Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi’i baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn gan mai dim ond newid technegol angenrheidiol a wneir ganddo er mwyn pennu’r AVD ar gyfer yr ailbrisio ardrethi annomestig arfaethedig ar 1 Ebrill 2026. Nid oes unrhyw newidiadau i ddiben nac effaith y polisi. Mae hyn yn unol â’r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ynghylch cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth